**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

5ed o Fehefin, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Edward Evans (Bryncir), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

Enid Egginton – Eitem 15 (Cynllunio)

**Penderfyniadau**

**Mynwent Llanfihangel y Pennant** – Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda pherchnogion Ty'n Llan, Cwm Pennant i drafod y wal ac i roi briff at ei gilydd o beth sydd angen ei atgyweirio. Clerc wedyn i ofyn am brisiau gan gontractwyr.

**Llwybr Prenteg** – Derbyniwyd prisiau gan dri cwmni trin coed lleol. GE yn cynnig mynd gyda chwmni Gwasanaethau Coed GBA ac JJ yn eilio. Ar yr amcan bris mae'n sôn am goeden Gerddinen/Griafol yn hytrach na Derw. GE i wirio beth yw'r goeden sydd wedi disgyn i wneud yn siŵr fod y goeden gywir yn cael ei thrin.

**Prenteg** - Mae arwydd Pont y Traeth ar archeb gan Gyngor Gwynedd.

Rhannwyd ymateb Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd gyda'r cynghorwyr. GE yn cynnig gwahodd Gerwyn Jones i gyfarfod safle ar Bont y Traeth ar noson y cyfarfod misol nesaf ym mis Gorffennaf ac eu bod wedyn yn dod yn eu blaenau i'r cyfarfod misol.

Soniwyd bod angen lleihau'r cyfyngiad cyflymder o 60mya i 40mya o Prenteg hyd at Barc Gwyliau Aberdunant; o gyfeiriad Tremadog o Tan y Fron i Brenteg a hefyd ar ochr Garreg i Bont y Traeth.

Mae cwyn wedi'i dderbyn gan breswylydd oedrannus yn dweud fod ymwelwyr i Barc Gwyliau Aberdunant yn curo drws ei thŷ bob awr o'r dydd am fod y teclynnau llywio lloeren yn eu hanfon yno.

Y gobaith yw gallu trafod y materion uchod i gyd yn y cyfarfod safle gyda Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd.

**Cae Chwarae Penmorfa -** Derbyniwyd prisiau gan ddau gontractwr. Cynigwyd ein bod yn rhoi cytundeb blwyddyn i Madog Garden Care ac ein bod yn mynd allan i dendr blwyddyn nesaf. GE yn cynnig, pawb yn gytûn.

**<u>Cynllunio</u>**

**Rhestrau:** 5/5, 12/5, 19/6, 26/5

**CAS – 04177 – C8HID9 – Apêl**
The Old Cow Sheds, Pentrefelin, LL52 0RB
Newid defnydd uned wyliau'r Cow Shed i dŷ annedd / prif gartref (C3) a chadw defnydd Little Barn yn uned wyliau (C6) – cefnogi penderfyniad Cyngor Gwynedd

**NP2/16/60B**
Haulfryn, Garndolbenmaen, LL51 9TZ
Trosi garej sy'n ynghlwm yn le byw gan ychwanegu to brig a dymchwel y sied bresennol ac adeiladu sied gardd / storfa newydd. Dim gwrthwynebiad.

**NP2/16/71A**
Glan yr Afon, Garndolbenmaen, LL51 9UX
Ystafell haul newydd, dymchwel garej ynghlwm a chodi estyniad deulawr gyda balconi. Dim gwrthwynebiad.